# Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru
# Shaping Places for Well-being in Wales

## Ynglŷn â'r rhaglen

Mae Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddefnyddio dulliau meddwl trwy systemau i wella llesiant. Mae'n ceisio dysgu o'r dull gweithredu a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

Mae meddwl trwy systemau'n mabwysiadu dull cydgysylltiedig o ymdrin â heriau cymhleth er mwyn gwneud penderfyniadau gwell. Mae'r rhaglen yn rhedeg rhwng mis Mehefin 2024 a mis Medi 2026. Cliciwch yma am ragor o fanylion

## Gweithgareddau

- Cyd-ddylunio'r rhaglen gyda phartneriaid
- Sefydlu grŵp dysgu cenedlaethol ar gyfer aelodau a swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynnal 16 gweithdy a 7 grŵp ymarfer
- Cefnogi aelodau'r grŵp dysgu i gymhwyso offer a dulliau meddwl trwy systemau yn eu gwaith
- Mabwysiadu dull addasol, gan ddysgu o werthuso ac addasu wrth fynd yn ein blaenau.
- Cyd-ddatblygu'r 'Grŵp Cynnydd Cenedlaethol Cryfhau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus'

## Yr hyn a ddysgwyd hyd yma

Mae meddwl trwy systemau'n ffordd o gymhwyso pum dull gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a swyddogion ddefnyddio offer a dulliau meddwl trwy systemau i flaenoriaethu gweithredu.

Mae amseru'n bwysig. Mae ymwreiddio meddwl trwy systemau mewn asesiadau a chynlluniau llesiant yn sicrhau y defnyddir meddwl trwy systemau mewn is-grwpiau a gweithgareddau.

Mae gwaith dysgu da ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymarferol ac yn bwrpasol, ac â chysylltiad agos â gwaith yn y byd go iawn.

Mae angen i amgylcheddau dysgu fod yn ddiogel yn seicolegol er mwyn i gyfranogwyr gymryd rhan mewn sgyrsiau gonest. Cefnogir hyn gan hwyluso medrus, trafodaethau mewn grwpiau bach, eglurder o ran pwrpas, a gweithredoedd dilynol amserol i annog gweithredu.

## Diwylliant a pherthnasoedd

Mae newid systemau'n cymryd amser ac yn aml yn gofyn am newidiadau o ran meddylfryd, diwylliannau a pherthnasoedd.

Mae meddwl a gweithio mewn ffordd wahanol yn gofyn am wydnwch, a gall bod â rhwydwaith, neu gynghreiriaid, o'ch cwmpas helpu i gynyddu'r hyder a'r cysur wrth ddefnyddio dulliau anghyfarwydd.

Mae Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru a rhaglenni eraill wedi nodi nad yw rhai o'r ffyrdd y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio bob amser yn cefnogi ffyrdd arloesol o feddwl a gweithio.

The Health Foundation

Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen Llunio Lleoedd y Sefydliad Iechyd. Mae'r Sefydliad Iechyd yn sefydliad elusennol annibynnol sy'n gweithio i feithrin Teyrnas Unedig iachach.

**Llunio Lleoedd**
ar gyfer Llesiant yng Nghymru
**Shaping Places**
for Well-being in Wales

## Astudiaethau Achos

**Mae'r astudiaethau achos canlynol yn tynnu sylw at effaith y rhaglen, yr hyn a ddysgwyd ganddi, a sut mae wedi'i chymhwyso yn y byd go iawn.**

### Mapio Cyd-destun

Defnyddio **Mapio Cyd-destun** i gefnogi dull rhanbarthol o ymdrin â Mynediad at Fwyd, gan ddefnyddio dull cyfranogol sy'n cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid.

### Mapio Systemau

Defnyddio **Mapio Systemau** i **archwilio'r cysylltiadau** rhwng heriau cymhleth, gan gynnwys sawl partner ar draws Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

### Model System Hyfyw

Defnyddiwyd y **Model System Hyfyw mewn gweithdy cenedlaethol i nodi gwelliannau** i ddulliau gweithio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a hynny er mwyn cefnogi eu dulliau cyflenwi a'u heffaith

### Astudiaeth Achos Fideo

Cyfle i ddysgu sut mae un o aelodau ein grŵp dysgu'n **cymhwyso'r offer a'r dulliau** ar draws Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.

**Mae gwersi a ddysgwyd o raglenni 'Llunio Lleoedd' eraill yn awgrymu y gall defnyddio dulliau meddwl trwy systemau gefnogi partneriaethau lleol i greu newid cadarnhaol mewn cymunedau lleol.**

## Beth sydd nesaf?

Cynhelir gweithdy olaf y grŵp dysgu ym mis Medi 2026.

Mae tîm y rhaglen yn parhau i ddarparu cymorth pwrpasol a chefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu'r Grŵp Cryfhau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â chynhyrchu adroddiad gwerthuso 'stori cyfraniad' a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

## Beth allwch chi ei wneud?

- Dysgu mwy am feddwl trwy systemau ar waith trwy ein gwefan ac adnoddau'r rhaglen.
- Rhoi caniatâd a chreu amodau i gymhwyso ffyrdd arloesol o weithio.
- Defnyddio offer meddwl trwy systemau i symud o wybodaeth (e.e. asesiadau llesiant) i gamau gweithredu (strategaeth a chynlluniau).
- Cysylltu â thîm y rhaglen

The Health Foundation

Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen Llunio Lleoedd y Sefydliad Iechyd. Mae'r Sefydliad Iechyd yn sefydliad elusennol annibynnol sy'n gweithio i greu Teyrnas Unedig sy'n fwy iach.